**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/127/2023

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru

26 Ebrill 2023

Annwyl Jenny,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Mawrth, yn gofyn am eglurhad i'r Rhaglen Cartrefi Cynnes a'n hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Rwy'n disgwyl caffael cynllun newydd, sy'n cael ei arwain gan y galw sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a thlodi tanwydd cyn diwedd y flwyddyn galendr. Bydd hyn yn galluogi dyfarnu'r cynllun newydd ddiwedd yr hydref a'i roi ar waith dros y gaeaf gyda disgwyl cyflawni'r ddarpariaeth o ddiwedd y gaeaf. Rwyf wedi ymestyn y cytundeb Nyth presennol ymhellach hyd at ddiwedd Mawrth 2024 i sicrhau na fydd bwlch yn y ddarpariaeth rhwng y rhaglenni newydd a rhaglenni presennol.

Mae fy swyddogion wedi rhoi cyfres o ddogfennau imi gan gynnwys datganiad polisi, a fydd yn llywio dyluniad manwl y rhaglen. Rwy'n disgwyl cyhoeddi'r rhain yn fuan a bydd y datganiad polisi yn rhoi mwy o eglurder.

O ran y rheoliadau, rwy'n disgwyl gosod y ddeddfwriaeth ddiwygiedig i'w ystyried gan y Senedd yn ystod yr haf.

Yn olaf, mae camau gweithredu y cynllun tlodi tanwydd yn parhau i fodoli i raddau helaeth, a'm bwriad yw manteisio ar y cyfle i gydlynu camau tlodi tanwydd gyda gweithredoedd ehangach i fynd i'r afael â thlodi ledled Llywodraeth Cymru. Mae disgwyl strategaeth tlodi plant ddiwygiedig yn yr hydref.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.